



Elan Links: Partneriaeth Tirwedd Pobl, Natur a Dŵr

Swyddog Prosiect Elan Links

Cyflog: 21 – 25k y flwyddyn

Ydych chi'n gyfathrebwr a threfnydd effeithiol? Ydych chi'n hoffi gweithio gyda phobl? Rydym yn chwilio am rywun i gydlynu'r cyfathrebu, ymrwymiad cymunedol a gweithgarerwch dehongli, ar gyfer Elan Links: Cynllun Partneriaeth Tirwedd Pobl, Natur a Dŵr. Fe fydd deiliad y swydd yn gweithio gyda staff a phartneriaid Cynllun Elan Links i sicrhau bod Cynllun Elan Links, ei weledigaeth a'i amcanion yn weladwy dros nifer o lwyfannau. Gan ddefnyddio Strategaeth Dehongli Elan Links, fe fyddan nhw'n datblygu rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau (cynulleidfa newydd a phresennol) ac offer dehongli er mwyn cysylltu â a dysgu am Dirwedd Elan Links a'i etifeddiaeth unigryw.

Dyddiad Cau: 12yp Dydd Mercher 25ain Mawrth 2020

Dyddiad Cyfweld: Dydd Mercher 1af o Ebrill 2020

Lleoliad: Cwm Elan, Rhaeadr, Powys, LD6 5HP

Oriau: 30/37.5 awr yr wythnos, cytundeb cyfnod penodol 2.5 mlynedd

Am Elan Links:

Mae gan Elan Links: Partneriaeth Tirwedd Pobl, Natur a Dŵr gweledigaeth glir i "warchod treftadaeth unigryw ac amrywiol tra'n gwella'n arwyddocaol canlyniadau i bobl a chymunedau yn y tymor hir".

Mae Elan Links: Partneriaeth Tirwedd Pobl, Natur a Dŵr wedi sicrhau arian oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ddarparu rhaglen gyffrous o 26 o brosectiau cyffrous o dan 11 o amcanion strategol a fydd yn darparu the weledigaeth uchod.

Lleolir Elan ym Mynyddoedd y Cambria yng nghanolbarth Cymru. Lleolir y prosiect mewn tirwedd unigryw sy'n cyfuno tir bryniog anghysbell, ffermydd unig, cymoedd coediog serth a gorchest anhygoel o beirianeg Fictoraidd a ddaeth â dŵr glân i Birmingham.

Os ydych yn dwlu ar dirweddau, bywyd gwyllt, a hanes, ac yn frwd dros helpu pobl lleol i gymryd rhan mewn hybu a gofalu am leoedd arbennig, mewn ffyrdd traddodiadol, arloesol a chreadigol yna rydym yn chwilio am pobl sydd a brwdfrydedd, ymroddiad a dealltwriaeth o'r tirwedd pwysig yma i bobl a bywyd gwyllt.

Wedi'i leoli yng nghanol Tirwedd Elan Links, fe fyddwch yn ran o dîm dynamig, sy'n sicrhau etifeddiaeth barhaus i genedlaethau'r dyfodol. Rydym yn chwilio am agwedd ddeinamig, 'gellir gwneud' sy'n frwdfrydig dros hyrwyddo a grymuso amrywiaeth eang o fuddiolwyr, partneriaid a rhanddeiliaid yn ein tirwedd arbennig.

Fel cydnabyddiaeth o hynny, rydym yn cynnig amgylchedd gwaith cyfeillgar a hyblyg, cyfleoedd gwych ar gyfer datblygiad personol a chyfle i wneud gwahaniaeth positif i'r bobl a chymunedau ar draws ardal Tirwedd Elan Links.

Disgrifiad Swydd

Teitl Swydd:	Swyddog Prosiect Elan Links
Yn atebol i:	Rheolwr Cynllun Elan Links
Cytundeb	37.5 / 30 awr yr wythnos ar raddfa cyflog o £21,000 i £25,000 (pro rata) Contract cyfnod penodol 2.5 mlynedd

Pwrpas y Swydd:






Fe fydd deiliad y swydd yn gweithio fel rhan o dîm staff Elan Links i ddatblygu amcanion y cynllun yn ystod y cyfnod darparu 4 mlynedd sydd ar ôl.

Prif Gyfrifoldebau:

1. **Rheoli a gweithredu rhaglen gyfathrebu effeithiol ar gyfer Cynllun Elan Links a'i 26 prosiect.**
 - 1.1 Datblygu strategaeth gyfathrebu effeithiol ar gyfer cyfleu Cynllun Elan Links i ystod eang o gynulleidfaoedd.
 - 1.2 Rheoli tudalennau gwe Elan Links.
 - 1.3 Rheoli tudalennau cyfryngau cymdeithasol Elan Links, gyda chefnogaeth y staff presennol.
 - 1.4 Cefnogaeth i gynhyrchu llenyddiaeth farchnata ddwyieithog.
 - 1.5 Rheoli cynhyrchu a chylchredeg datganiadau i'r wasg rheolaidd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd eang / grwpiau diddordeb.

2.Cydlynu dehongliad Cynllun Elan Links

- 2.1 I ddarparu'r prosiectau canlynol:

-  7a: Dehongli Elan;
-  7b: Elan Rhyngweithiol;
-  7c: Preswylfa Arlunwyr;
-  7d: Digwyddiadau Hyrwyddo a Diddorol;
-  11Tap into it.

- 2.2 I weithio'n agos gyda holl aelodau tîm Elan Links a'u partneriaid er mwyn sicrhau dull cyfannol i'r elfen o wybodaeth i'r cyhoedd a dehongliad Cynllun Elan Links.

- 2.3 I weithio'n agos ac i drefnu yn ôl yr angen yr Is-Bwyllgor Dehongli.
- 2.4 I gadw golwg ar dargedau'r prosiect allweddol ar gyfer y prosiectau uchod ac i asesu'r effaithparhaol ac i alluogi newidiadau pan fo'r angen.
- 2.5 I oruchwylio a rheoli adeiladwyr a gwrifoddolwyr yn ystod gweithrediadau'r prosiect.
- 2.6 I roi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r Rheolwr Cynllun er mwyn sicrhau monitro a rheolaeth effeithiol o'r prosiectau uchod, ac i gynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig a diweddariadau pan fo angen neu'n addas ar gyfer rheolwyr, partneriaid a noddwyr.
- 2.7 I sicrhau bod yr holl waith yn cael ei wneud yn unol â Pholisïau Elan Links, cynlluniau ac amcanion gyda sylw dyledus at les a diogelwch eraill bob amser.

3. Cydlynu gweithrediad effeithiol o raglen Hyrwyddo'r Gymuned i Gynllun Elan Links.

- 3.1 Cydlynu â'r holl bartneriaid, cefnogwyr a'r sawl sydd â diddordeb er mwyn sicrhau eu cydweithrediad llawn â'r prosiectau perthnasol. Fe fydd hwn yn cynnwys adrodd yn ôl i'r Bwrdd Partneriaid ac hyrwyddo ac annog eraill i gymryd rhan ac elwa o Gynllun Elan Links.
- 3.2 Sicrhau bod mudiadau partner yn darparu hyrwyddo'r gymuned o fewn y prosiectau lle mae ganddynt y brif ran. Fe fydd angen cyfathrebu effeithiol gyda'r holl bartneriaid.
- 3.3 Cynrychioli Partneriaeth Elan Links mewn cyfarfodydd a digwyddiadau ar ran y Cynllun, trwy ddigwyddiadau, datganiadau i'r wasg, prosiectau dehongli, deunydd hyrwyddo, adroddiadau a phob math o gyfryngau.
- 3.4 Sicrhau bod pob gwaith hyrwyddo'r gymuned yn cael eu cofnodi a'u monitro'n addas, yn unol â'r safonau a ddisgwylir gan HLF.
- 3.5 Sicrhau bod y prosiectau yn cyd-fynd ac yn darparu etifeddiaeth parhaol ar gyfer hyrwyddo'r gymuned oddi mewn i Gwm Elan.

4. Cymryd rhan yn y gwaith o drawsdorri prosiect/timau ardal

- 4.1 Ymuno a'r prosiect neu timau ardal a ystyrir yn angenrheidiol gan y Rheolwr Cynllun.
- 4.2 Defnyddio'ch sgiliau arbenigol a phrofiad yn gyfochrog â chydweithwyr eraill er mwyn sicrhau darpariaeth integredig o'r flaenoriaeth strategol o fewn Cynllun Elan Links.
- 4.3 Cydweithio â'ch rheolwr llinell i gadw cydbwysedd o'ch baich gwaith i sicrhau eich bod yn defnyddio'ch amser yn effeithiol er mwyn darparu Cynllun Elan Links.

5. Cyfrifoldebau Cyffredinol

- 5.1 Helpu gyda rheoli cyllideb y prosiect a rhoi gwybodaeth i'r Swyddog Prosiect a/neu Rheolwr y Cynllun i ymgymryd â monitro ariannol.
- 5.2 Cofnodi'ch gweithgareddau a chynnydd.

- 5.3** Mynychu Cyfarfodydd Tîm
- 5.4** Goruchwylio monitro'r Prosiect a Chyfranwyr, a sicrhau bod yr Allgynhyrchion a'r Canlyniadau a Chytunwyd yn cael eu diwallu.
- 5.5** Hyrwyddo gwaith, cenhadaeth a gweledigaeth Cynllun Elan Links gan adnabod a chydabod rhan y bartneriaeth ar bob amser addas.
- 5.6** Defnyddio pob cyfle cymesurol gyda dyletswyddau eraill i gyfrannu at gyfathrebu Partneriaeth, a chefnogi ei marchnata, codi arian a chysylltiad â phobl.
- 5.7** Sicrhau lefel uchel o wasanaeth cwsmer wrth ymdrin â'r cyhoedd.
- 5.8** Sicrhau datblygiad parhaus o sgiliau a gwybodaeth sydd angen ar gyfer y swydd, cael hyfforddiant ac adolygiadau perfformiad yn ôl yr angen gan y Bartneriaeth.
- 5.9** Gweithio o fewn holl bolisïau a gweithdrefnau'r mudiadau allweddol y Bartneriaeth a sicrhau cydymffurfiaeth eich hun â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch ynghyd â'r staff a deunydd o dan eich cyfrifoldeb.
- 5.10** Cydymffurfio â phob rhwymedigaeth gyfreithiol a chytundebol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'ch swydd.
- 5.11** Goruchwylio a chefnogi gwirfoddolwyr fel sy'n briodol i'ch swydd.
- 5.12** Cyflawni unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n gymesur â lefel cyfrifoldeb y swydd fel y gofynnwyd gan eich rheolwr llinell neu Gadeirydd y Bartneriaeth.

MANYLEB PERSON

Teitl y Swydd: Swyddog Prosiect Elan Links

Nodir bod y manylebau isod yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer y swydd hon

Cymwysterau	Hanfodol	Angenrheidiol
Cymhwyster gradd neu addysg uwch berthnasol	✓	
Cymhwyster cyfathrebu perthnasol		✓
Cymhwyster cyfeithu o'r Saesneg i'r Gymraeg		✓
Trwydded yrru lawn, yn ddelfrydol lân, a mynediad i gerbyd	✓	
Gwybodaeth a Dealltwriaeth		
Dealltwriaeth o egwyddorion marchnata a chyfathrebu	✓	
Dealltwriaeth o egwyddorion dehongli	✓	
Dealltwriaeth o egwyddorion ymgysylltu â'r gymuned	✓	
Dealltwriaeth o faterion treftadaeth naturiol a thirwedd cyfredol		✓
Dealltwriaeth o'r ardal leol a threftadaeth Cwm Elan		✓
Dealltwriaeth o brosesau creadigol	✓	
Gwybodaeth am y prif sefydliadau sy'n ymwneud â gwarchod tirweddau'r DU a'u rolau		✓
Monitro prosiect a gwerthuso		✓
Profiad diweddar a pherthnasol o		
Profiad o farchnata a chyfathrebu	✓	
Datblygu cynnwys o brosiectau i'w defnyddio i ymgysylltu â'r cyhoedd ehangach	✓	
Gweithio gyda chymunedau a gwirfoddolwyr		✓
Gweithio gyda phrosiectau mawr, aml gyllid gan gynnwys y Loteri Genedlaethol		✓
Darparu Ymgysylltiad Cymunedol cynhwysol	✓	
Profiad o gyflwyno prosiectau ar y gyllideb a'r dyddiad cau	✓	
Profiad o ddehongli creadigol ac arloesol	✓	
Gweithio gyda/cydlunu ystod o sefydliadau	✓	
Rhoi cyflwyniadau i amrywiaeth o gynulleidfaoedd	✓	
Trefnu a blaenoriaethu llwyth gwaith cystadleuol	✓	
Sgiliau: fe fydd angen ar ddeiliad y swydd:		
Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ardderchog	✓	
Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar yn y Gymraeg		✓
Ystod eang o sgiliau TG gan gynnwys prosesu geiriau, taenlenni, cyfryngau cymdeithasol a dylunio	✓	
Rhinweddau Personol		
Ymrymiad i warchod tirwedd a threftadaeth	✓	
Y gallu i weithio'n effeithiol gyda phobl o ystod eang o ddisgyblaethau	✓	
Y gallu i weithio'n gydweithredol fel rhan o dîm	✓	
Y gallu i weithio'n effeithiol dan bwysau	✓	
Hunan gymhelliant	✓	
Y gallu i ysgogi eraill	✓	
Y gallu i gyrraedd safleoedd nad ydynt yn hygyrch mewn cerbyd	✓	

CYD-DESTUN SWYDD

Teitl Swydd: Swyddog Prosiect Elan Links

Mae hon yn swydd llawn amser (30/37.5 awr yr wythnos) am dymor penodol o bedair mlynedd. Caiff ei hariannu gan Gynllun Elan Links gyda chyfraniadau oddi wrth Gronfa Bartneriaeth Tirwedd HLF, Ymddiriedolaeth Cwm Elan, Dŵr Cymru Welsh Water ac eraill. Byddwch yn cael eich rheoli gan Rheolwr Cynllun Elan Links yn y lle cyntaf, ond byddwch yn atebol i Gyfarwyddwr CARAD o ran llwythi gwaith a allbwn o dan system reoli llinell gadarn/linell ddot .

Y rôl yn ystod y cyfnod hwn fydd i reoli'r Cyfnod Cyflenwi pedair blynedd sy'n weddill o'r cyfathrebiadau, ymgysylltu â'r gymuned a phrosiectau dehongi i Gynllun Elan Links. Bydd yn cynnwys gweithio gyda nifer o unigolion a mudiadau yn ardal leol Cwm Elan, staff sefydliadau partner, yn enwedig EVT, DCWW, Tir Coed a CARAD, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd.

Lleoliad y swyddfa fydd Swyddfa Ystâd Elan yng Nghwm Elan. Efallai y bydd angen rhywfaint o weithio gyda'r nos a'r penwythnos. Fe fydd angen teithio o fewn ardal Cwm Elan gan gynnwys ystod o safleoedd ar draws Ystâd Cwm Elan, ac mae llawer ohonynt ar draws tir anodd a dim ond ar droed y gellir eu cyrraedd. Fe fydd angen teithio ymhellach yn rheolaidd i'r cymunedau targed yn ardal Birmingham. Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd ddarparu cludiant addas ac ad-delir treuliau priodol ar eu cyfer. Disgwylir i staff gyd-weithio'n gytûn a'i gilydd a gyda gwirfoddolwyr ac i ddarparu cymorth priodol a chynghor i staff a gwirfoddolwr pan fo'r angen er mwyn ymgymryd â'u cyfrifoldebau priodol yn effeithiol. Bydd angen parodrwydd i fod yn hyblyg ynglŷn â threfniadau gweithio ac i ddarparu gwasanaeth achlysurol ar gyfer staff absennol er mwyn cynnal effeithiolrwydd prosiect a threfniadol. Trwy eu swyddi, mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb dros gyflawni amcanion y cynllun ac am gynnal enw da sefydliadau partner y cynllun, trwy ddangos lefelau uchel o onestrwydd a chyfrifoldeb.

CAIS A CHYFWELIAD:

Rhaid i'ch ffurflen gais gyrraedd Rheolwr Cynllun Elan Links drwy ebost neu bost dim hwyrach na **12yp ar ddydd Mercher 25ain Mawrth 2020**. **At sylw:** Eluned Lewis, Rheolwr Cynllun Elan Links, Swyddfa Ystâd Cwm Elan, Pentref Elan, Rhaeadr, Powys, LD6 5HP; neu eluned.lewis@elanvalleytrust.org.

A wnewch hefyd gynnwys enwau, cyfeiriadau (gan gynnwys cyfeiriadau ebyst, os ar gael) dau ganolwr y gallwn gysylltu â nhw.

A wnewch hefyd gynnwys eich enw llawn, rhif ffôn a chyfeiriad adref a/neu gyfeiriad electronig er mwyn i ni allu cadarnhau derbyn eich cais.

Cyfweliad: Fel arfer bydd y bwrdd dethol yn cynnwys pedwar cyfwelydd a fydd yn eich holi yn bennaf mewn cysylltiad â'ch profiad gwaith a'ch cyflawniadau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith. Prif nod y Bwrdd fydd i gael cipolwg ar eich gallu i gyflawni'r swydd yn effeithiol ac yn effeithlon. Fe ofynnir i chi gyflawni tasg/rhoi cyflwyniad byr ar lafar fel rhan o'ch cyfweliad, bydd union fanylion rhain yn cael eu cadarnhau. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig y swydd, yn dibynnu ar eirdaon boddhaol, a gofynnir i ddarparu:

- 📎 Cadarnhad o'r Hawl i Weithio (Pasbort DU neu Fisa Gwaith)
- 📎 Disgwylir iddynt ymgymryd â'r gwaith cyn gynted ag y bo modd

Cyfle Cyfartal: Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau oddi wrth bob oedran a rhannau o'r Gymuned. Yn ddarostyngedig i'r gyfraith, ni chaiff ymgeisydd am benodiad staff neu aelod o staff ei drin yn llai ffafriol nag un arall. Fe fydd cyflogaeth gydag Ymddiriedolaeth Cwm Elan a dilyniant o fewn y gyflogaeth yn unig yn ôl teilyngdod personol a'u gallu i gyflawni'r swydd. Gwnawn hyn trwy gymhwyso meini prawf sy'n gysylltiedig â dyletswyddau ac amodau pob swydd benodol ac anghenion y sefydliad dan sylw.

Byddwn yn ystyried ceisiadau am gyflogaeth rhan amser, rhannu swydd, neu ar sail hyblyg arall, hyd yn oed os hysbysebir y swydd yn llawn amser, oni bai bod rhesymau gweithredol neu wrthrychol arall pam na ellir gwneud hynny.

Gan y bydd y swydd hon yn golygu cysylltu â chymysgedd o bobl, bydd angen i'r darpar ymgeisydd gwblhau Datgeliad Safonol a gwirio Gwasanaeth Gwahardd.

Prif Amodau Cyflogaeth

Teitl Swydd: Swyddog Prosiect Elan Links

Dyddiad cychwyn cyflogaeth: Mai 2020

Man gwaith: Swyddfa Ystâd Elan, Pentref Elan, Rhaeadr, Powys, LD6 5HP

Cyflog: Cyflog blynyddol £21,000-25,000 y flwyddyn

Pensiwn: Mae hawl gan y Swyddog ymuno â chynllun pensiwn Ymddiriedolaeth Cwm Elan (cyfraniad lleiaf 2% o'r cyflog) a derbyn hyd at 5% o gyfraniad y cyflogwr.

Cyfnod prawf: Mae'r swydd hon yn ddarostyngedig i gyfnod prawf o chwe mis.

Hyd: Cytundeb tymor penodol o 2.5 blynedd.

Oriau: 30/37.5 awr yr wythnos (08 /1 FTE), ond fe fydd yr oriau gwaith yn hyblyg ac yn cynnwys rhywfaint o waith gyda'r nos ac ar y penwythnos. Bydd amser i ffwrdd yn ei le yn cael ei ganiatáu ar gyfer goramser.

Gwyliau blynyddol: Hawl gwyliau blynyddol yw **28 diwrnod y flwyddyn** (pro rata am ran amser) sy'n cynnwys gwyliau cyhoeddus statudol.

Defnydd o gerbyd: Gellir hawlio costau defnydd cerbyd eich hun yn y gyfradd milltiroedd EVT presennol.

Dyddiad cau: Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau electronig yw **12yp ar ddydd Mercher 25ain Mawrth 2020**

Dyddiad cyfweld: Cynhelir cyfweiliadau ar **Ddydd Mercher 1af o Ebrill 2020** yn Swyddfa Ystâd Elan, Pentref Elan, Rhaeadr, Powys, LD6 5HP.